CYNGOR BRO LLANLLWNI
ADRODDIAD CYFARFOD MIS TACHWEDD 2022

Roedd y Clerc wedi gosod poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Nid oedd heddwas yn bresennol.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i sylw'r Cynghorwyr.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Byddai amryw bynciau perthnasol i'r Cae Chwarae a'r adnoddau yn cael sylw yn y cyfarfod nesaf.

DIFFIBRILYDDION
Nodwyd bod amryw fanylion o ran derbyn hyfforddiant a lleoliadau yn dal heb eu datrys.

CWTERION
Mae'r cwterion rhwng Mayfield ac Abergiar a rhwng T.L.Thomas â Siop y Pentref yn llawn. Yn ogystal mae'r gwter ger Gorlan angen ei drwsio a sail y gratin wedi chwalu.

GOLEUADAU SOLAR
Roedd y trydanwr wedi bod ar y safle ar 8 Medi a bellach mae'r goleuadau ger cysgodfan y Belle Vue yn gweithio, ond mae un cysgodfan heb gyflenwad trydan. Nodwyd nad oedd y goleuadau hyn yn asedau goleuadau priffyrdd ac fel arfer nid yw'r Cyngor Sir yn ymwneud â nhw.

CLAWDD BRYN-FELINFACH:
Mawr angen torri'r clawdd Bryn-Felinfach i gyfeiriad yr afon gan ei fod wedi gordyfu.

CEFNOGAETH:
Penderfynwyd cefnogi: CFFI Sir Gâr; Ysgol Bro Pedr; Cylch Meithrin a Ti a Fi, Llanllwni.

LLWYBRAU
Byddai'r Clerc yn cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i holi a oes llwybr ceffylau ger Eglwys Llanllwni.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 12 Rhagfyr 2022 am 8.00yh.